Ysgol Gynradd Henblas,Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net

22/9/2023
Annwyl riant,

**Ymweliadau addysgol**

Gair i atgoffa fod angen talu am ymweliadau addysgol drwy'r porth arlein (school gateway) cyn y dyddiadau isod:
Oren: dydd Llun 25/9/2023 Castell Criccieth
Glas: dydd Mercher 27/9/2023 Jodrell Bank
Gwyrdd: dydd Iau 28/9/2023 Castell Biwmares
Melyn: dydd Iau 28/9/2023 Castell Caernarfon

Mae'r taliad arlein yn nodi eich caniatad er mwyn i'ch plentyn fynd ar y daith.
Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am eu cyfraniad hael tuag at gostau bws.

**Cyfarfod Cymdeithas Rhieni Athrawon**

Pryd? Dydd Mercher Hydref 4ydd am 6:30pm
Ble? Neuadd yr ysgol
Pwy? Apeliwn am gymorth rhieni i helpu trefnu rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24. Mae'r arian sydd yn cael ei godi drwy'r gweithgareddau hyn yn gymorth mawr iawn tuag at leihau costau teithiau addysgol.

**Wythnos seiclo i'r ysgol 25/9-29/9/23**

Yr wythnos nesaf (Medi 25-29) mae Ysgol Henblas yn cymryd rhan yn 'wythnos seiclo i'r ysgol'. Digwyddiad sy'n annog teuluoedd i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol yw 'wythnos seiclo i'r ysgol': https://www.bikeability.org.uk/cycletoschoolweek/
Eleni mae Bikeability yn cynnal cystadleuaeth i ennill beic 'Frog' i blant! Gwnewch addewid beicio ar-lein trwy lenwi'r ffurflen gan ddefnyddio'r ddolen uchod er mwyn cael eich cynnwys yn y raffl wobrwyo.

**Cerdyn Nadolig**

Bydd eich plentyn wedi dod a chynllun cerdyn Nadolig adref. Os am greu archeb rhaid llenwi'r daflen a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Gwener, Medi 29ain gyda thaliad. Os nad oes taliad wedi dod gyda'r archeb ni fyddwn yn ei yrru ymlaen i'r cwmni.

**Ysgol Gyfun Llangefni**

Hydref 17eg noson agored 5.30-7.30pm i flynyddoedd 4,5 a 6
Noson barbeciw Mehefin 24ain, 2024 blwyddyn 6 (plant a theulu)
Blwyddyn 6 yn ymweld 25/26/27ain Mehefin, 2024

**HMS – cadarnhad dyddiadau**

6.11.2023
22.12.2023
19.2.2024
7.6.2024

**Dyddiad ar gyfer y dyddiadur – Sioe bypedau**

Pryd? Nos Fawrth Hydref 24ain
Ble? Neuadd Ysgol Henblas
Beth? Sioe bypedau ar gyfer y gymuned ac i blant 8 oed a throsodd
Mae'r dosbarth glas yn trefnu sioe bypedau gan gwmni Life and Limb o'r enw 'Dragon'. Bydd mwy o wybodaeth am bris tocynnau i ddilyn.

**Clwb brecwast**

Gofynwn yn garedig i chi dalu am y clwb brecwast ar y porth talu arlein (school gateway).